Mr Huw Jones
Cadeirydd
Awdurdod S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

23 Chwefror 2017

Annwyl Huw,

**Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru**

Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n nodi ein safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ac er na wnaed yr un o'r rhain yn uniongyrchol i S4C, roedd nifer ohonynt yn berthnasol i'r sianel. Nodir y rhain isod:

> '**Argymhelliad 6**. Rydym yn argymell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach i gyllid S4C hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei gasgliadau.'
>
> '**Argymhelliad 7**. Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno y dylai Awdurdod S4C osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.'
>
> '**Argymhelliad 8**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC.'

Er ein bod yn sylweddoli nad ydynt yn galw am weithredu uniongyrchol gan S4C, byddai o gymorth pe gallech roi eich barn imi am yr argymhellion hyn. Os felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn diwedd y dydd ar 13 Mawrth 2017, mewn pryd ar gyfer dadl y Cynulliad, ar yr adroddiad ac ar ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

O ran argymhelliad 7, rwy'n deall o'ch llythyr dyddiedig 24 Hydref 2016 fod S4C yn fodlon gosod ei hadroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon

gerbron y Cynulliad.  Mater i'r Cynulliad ei hun felly yw'r cam uniongyrchol sy'n weddill, sef pasio cynnig i weithredu hyn.

I'r perwyl hwn, pan fydd y Cynulliad yn trafod adroddiad y Pwyllgor, bydd yn gwneud hynny ar sail y cynnig a ganlyn:


*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Y Darlun Mawr - Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2017; a*

*2. Yn cytuno y dylai S4C, gan ei bod wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor i'r perwyl hwn, osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.*

Rwy'n tybio y bydd S4C yn fodlon ar hyn.  Fodd bynnag, rhowch wybod imi os bydd gennych unrhyw bryderon.

Yn gywir,




**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**